PROSIECT COEDYDD TRAFALGAR

Y LLYNGESYDD NELSON EI ORIAU OLAF

> “Nawr gwrthdrawodd y Victory yn erbyn y llong Ffrengig Redoutable. Yn glwm wrth ei gilydd, a fflamiau uchel yn eu cuddio, symudodd y ddwy long yn araf trwy fwg y frwydr. Er bod yr ymladd yn parhau'n ffyrnig, cliriodd peth o'r mwg o ddeciau'r Victory, ddigon i saethwyr y Ffrancod fedru gweld y streipiau aur ar ysgwyddau swyddogion y Saeson. Dyma saethwr oedd yn penlinio ar lwyfan uchel y mast canol yn tanio ei fwsged at Nelson. Ar ddec chwarter y Victory roedd Capten Hardy wedi troi i roi gorchymyn pan syrthiodd Nelson, wedi ei glwyfo'n farwol. Ar unwaith dyma Hardy, sarsiant y morfilwyr a dau breifat yn rhuthro ymlaen i'w godi. Yna cariwyd Nelson i lawr i'r cocpit lle gorchmynnodd iddynt guddio ei wyneb â hances fel na allai neb ei adnabod. Roedd bywyd Nelson yn prysur ddod i ben pan ddychwelodd Hardy o'r ymladd uwchben i roi gwybod bod pedair ar ddeg o longau'r Ffrancod wedi ildio. 'Da hynny,' meddai Nelson, 'Ond roeddwn wedi gobeithio am ugain.' Daliodd i fyw am ychydig hirach. Ar ôl murmur rhai geiriau aneglur dywedodd yn glir: 'Rwyf wedi gwneud fy nyletswydd. Rwy'n diolch i Dduw am hynny.' ”
>
> www.voodoo.cz/victory/trafalgar

> “**Pencadlys Cadiz, Hyd. 25 1805**
>
> *Yr oedd Nelson yn gwrthsefyll o hyd. Aeth hi'n râs bellach i weld pwy fyddai'r cyntaf i fyrddio ei long a'i ddal, Ffrancod neu Sbaenwyr. Yr oedd y ddau lyngesydd ar bob ochr yn cystadlu am yr anrhydedd ac aeth y ddau ohonynt ar y llong yn yr un foment. Neidiodd Villeneuve ar y dec chwarter, yn cario pâr o bistolau yn ei ddwylo yn ôl asbri arferol y Ffrancod. Yr oedd yn gwybod bod Nelson wedi colli braich ac na allai ddefnyddio ei gleddyf, felly fe gynigiodd bistol iddo, ymladdodd y ddau, a chwympodd Nelson ar yr ail ergyd. Cafodd ei gario i'r dec isaf yn syth. Bu Oliva, Gravina a Villeneuve yn tendio arno gyda charedigrwydd arferol y Ffrancod...Wedi ennill buddugoliaeth mor bendant, rydym yn aros yn ddiamynedd am orchymyn yr Ymerawdwr i hwylio i lannau'r gelyn, dinistrio gweddill ei lynges, ac felly gorffen y gwaith buddugoliaethus yr ydym wedi ei ddechrau mor wych* ”
>
> Hanes Ffrengig cyfoes a gyhoeddwyd yn Le Moniteur

Wrth astudio hanes byddwn yn dibynnu ar wahanol ffynonellau o dystiolaeth i roi gwybodaeth i ni. Nid yw'r rhain bob amser yn ddibynadwy ac maent yn gallu amrywio'n fawr. Dyma ddau ddisgrifiad o farwolaeth Nelson yn ystod Brwydr Trafalgar www.trafalgar-schools.org.uk



Tasg

- Cymharwch y ddwy ffynhonnell hyn a rhestrwch y ffeithiau sydd yn wahanol.
- Pam ydych chi'n meddwl bod gwahanol ffynonellau yn rhoi gwahanol fersiynau o'r un digwyddiad weithiau?
- Ewch i dair gwahanol wefan am y Llyngesydd Nelson ac yna ysgrifennwch eich fersiwn chi o'i oriau olaf o beth rydych wedi'i ddysgu

Nodiadau athrawon

Oedran

Blynyddoedd 7/9

Adnoddau pellach

Nodiadau athrawon
Rhestr llongwyr
www.trafalgar-schools.org.uk

Cysylltiadau cwricwlwm

Hanes, TGC, Llythrennedd

Woodland Trust tree for all coed i bawb Coed Cadw

www.treeforall.org.uk/trafalgar
Mae Coedydd Trafalgar yn rhan o ymgyrch Coeden i Bawb Coed Cadw
Nod masnach cofrestredig yw logo Coeden i Bawb. Elusen gofrestredig Rhif 294344

Y LLYNGESYDD NELSON

EI ORIAU OLAF

NODIADAU ATHRAWON

Prosiect Coedydd Trafalgar

Canlyniadau'r dysgu

- Nodi pethau tebyg/gwahanol yn y dehongliadau a geir gan wahanol ffynonellau
- Trwy drafod, dangos dealltwriaeth o sut y mae gwahaniaethau'n codi yn y dehongliadau
- Cymharu gwerth gwahanol ffynonellau wrth ateb cwestiynau hanesyddol

Amlinelliad o'r dasg

- Darllen y ddau adroddiad a nodi'r gwahaniaethau
- Trafod pam y ceir gwahanol duedd yn y ddau adroddiad hyn
- Ystyried rhesymau pam y gellir dehongli ffynonellau hanesyddol mewn gwahanol ffyrdd
- Ymchwilio i adroddiadau eraill am y digwyddiad hwn gan ddefnyddio deunydd arall o'r Rhyngrwyd

Gwahaniaethu

Disgyblion llai galluog

- Darparu darllenydd i bob grŵp
- Gweithio mewn grwpiau gallu cymysg i sicrhau cynhaliaeth

Gweithgareddau ymestynnol

- Chwilio am adroddiadau o agweddau eraill o'r frwydr trwy'r Rhyngrwyd

Mae'r gweithgaredd hwn yn gofyn i'r disgyblion astudio dau wahanol hanes am farwolaeth y Llyngesydd Nelson a darganfod pwysigrwydd dehongli ffynonellau o dystiolaeth hanesyddol. Cymerir y darnau o adroddiadau am frwydr Trafalgar a ysgrifennwyd gan y Saeson a'r Ffrancod.

Adnoddau angenrheidiol

Taflen y disgyblion

Geirfa (cynhwyswyd)

Detholiad o fathau eraill o dystiolaeth ar gyfer cymharu, e.e. mapiau, lluniau, peintiadau, dyddiaduron a.a.

Nodiadau

- Argraffwyd rhai geiriau yn y ddau hanes mewn print trwm. Ceir ystyr y rhain ar y daflen geirfa amgaeedig.

Pam mae'n anodd bod yn sicr beth ddigwyddodd?

- Mae llawer o ddisgrifiadau o'r frwydr i'w cael a llawer o wybodaeth anghyson, weithiau'n adlewyrchu tuedd un wlad neu'r llall.
- Yn y cyfnod hwnnw roedd yn anodd cadw amser yn fanwl.
- Bu'r bobl a wnaeth yr adroddiadau ar y môr o hyd am rai wythnosau wedi'r frwydr, felly bu oedi cyn iddynt fedru rhoi eu fersiwn nhw o'r digwyddiadau.
- Mae'r amserau a nodwyd yn llyfrau log gwahanol longau yn amrywio o fwy na dwy awr.
- Nid oedd fawr o wynt i wasgaru'r mwg dwys a gynhyrchwyd gan y magnelau. Oherwydd y mwg roedd yn anodd gweld yn glir i ba wlad y perthynai'r llongau, heb sôn am nodi eu henwau.
- Roedd difrod i'r llongau yn ychwanegu at anhawster anfon signalau ac adnabod llongau eraill. (Roedd y *Victory'n* hedfan pum baner yr Undeb rhag ofn i rai gael eu saethu i ffwrdd).

Gweler y rhestr gyflawn o wefannau defnyddiol yn (www.trafalgar-schools.org.uk) ar gyfer ffynhonellau pellach

Cysylltiadau â'r cwricwlwm

Hanes, TGCh, Llythrennedd

Nod masnach cofrestredig yw logo Coeden i Bawb. Elusen gofrestredig Rhif 294344

Y LLYNGESYDD NELSON

EI ORIAU OLAF

NODIADAU ATHRAWON

"*Nawr* ***gwrthdrawodd*** *y Victory yn erbyn y llong Ffrengig Redoutable. Yn glwm wrth ei gilydd, a fflamiau uchel yn eu cuddio, symudodd y ddwy long yn araf trwy fwg y frwydr. Er bod yr ymladd yn parhau'n ffyrnig, cliriodd peth o'r mwg o ddeciau'r Victory, ddigon i saethwyr y Ffrancod fedru gweld y streipiau aur ar ysgwyddau swyddogion y Saeson. Dyma saethwr oedd yn penlinio ar lwyfan uchel y mast canol yn tanio ei* ***fwsged*** *at Nelson. Ar* ***ddec chwarter*** *y Victory roedd Capten Hardy wedi troi i roi gorchymyn pan syrthiodd Nelson, wedi ei glwyfo'n farwol. Ar unwaith dyma Hardy, sarsiant y* ***morfilwyr*** *a dau breifat yn rhuthro ymlaen i'w godi. Yna cariwyd Nelson i lawr i'r* ***cocpit*** *lle gorchmynnodd iddynt guddio ei wyneb â hances fel na allai neb ei adnabod. Roedd bywyd Nelson yn prysur ddod i ben pan ddychwelodd Hardy o'r ymladd uwchben i roi gwybod bod pedair ar ddeg o longau'r Ffrancod wedi ildio. "Da hynny," meddai Nelson, "Ond roeddwn wedi gobeithio am ugain." Daliodd i fyw am ychydig hirach. Ar ôl murmur rhai geiriau aneglur dywedodd yn glir: "Rwyf wedi gwneud fy nyletswydd. Rwy'n diolch i Dduw am hynny."*

www.voodoo.cz/victory/trafalgar

"**Pencadlys Cadiz, Hyd. 25 1805**

Yr oedd Nelson yn gwrthsefyll o hyd. Aeth hi'n râs bellach i weld pwy fyddai'r cyntaf i fyrddio ei long a'i ddal, Ffrancod neu Sbaenwyr. Yr oedd y ddau lyngesydd ar bob ochr yn cystadlu am yr anrhydedd ac aeth y ddau ohonynt ar y llong yn yr un foment. Neidiodd Villeneuve ar y dec chwarter, yn cario pâr o bistolau yn ei ddwylo yn ôl asbri arferol y Ffrancod. Yr oedd yn gwybod bod Nelson wedi colli braich ac na allai ddefnyddio ei gleddyf, felly fe gynigiodd bistol iddo, ymladdodd y ddau, a chwympodd Nelson ar yr ail ergyd. Cafodd ei gario i'r dec isaf yn syth. Bu Oliva, Gravina a Villeneuve yn tendio arno gyda charedigrwydd arferol y Ffrancod... Wedi ennill buddugoliaeth mor bendant, rydym yn aros yn ddiamynedd am orchymyn yr ***Ymerawdwr*** *i hwylio i lannau'r gelyn, dinistrio gweddill ei lynges, ac felly gorffen y gwaith buddugoliaethus yr ydym wedi ei ddechrau mor wych."*

Hanes Ffrengig cyfoes a gyhoeddwyd yn Le Moniteur

Woodland Trust tree for all coed i bawb Coed Cadw

www.treeforall.org.uk/trafalgar

Mae Coedydd Trafalgar yn rhan o ymgyrch Coeden i Bawb Coed Cadw

Nod masnach cofrestredig yw logo Coeden i Bawb. Elusen gofrestredig Rhif 294344

Y LLYNGESYDD
NELSON
EI ORIAU OLAF
NODIADAU ATHRAWON

Geirfa

Cocpit – y rhan o'r llong ble roedd y llyw

Dec chwarter – rhan ôl (starn) dec uchaf y llong a gedwid fel arfer ar gyfer swyddogion

Gwrthdaro – dwy long yn hwylio yn erbyn ei gilydd

Morfilwyr – milwyr yn gwasanaethu ar fwrdd llongau rhyfel

Mwsged – dryll hir cynnar oedd yn cael ei lwytho trwy'r baril a'i danio o'r ysgwydd

Ymerawdr – Ymerawdr y Ffrancod, Napoleon Bonaparte

Geiriau eraill y mae angen chwilio am eu hystyr:

Nod masnach cofrestredig yw logo Coeden i Bawb. Elusen gofrestredig Rhif 294344

PROSIECT COEDYDD TRAFALGAR

BYWYD AR FWRDD

LLONG

Y MORWYR

Cofnod o Gronfa Rhestr llongwyr

BELLAIRS	Henry
Llong:	Spartiate
Oed wrth ymuno:	14
Ymuno â'r llong:	Ion 4 1805
Ymuno â'r llong:	Midshipman
Gradd:	Stamford, Swydd Lincoln. Bedyddio Medi 1 1790. Geni Awst 29 1790, mab Abel Walford a Susanna nee Lowley yn Stamford.
Recriwtio:	Gwirfoddolwr
Anafiadau:	Ei glwyfo yn y frwydr.
Cronfa Wladgarol Lloyd's:	Derbyniodd £25 o'r Gronfa am anafiadau a gafodd yn y frwydr.
Medal:	Medal Gwasanaeth Cyffredinol y Llynges.
Gwobr:	£10 14s 2d
Gwobr Seneddol:	£26 6s 0. Gwnaeth ei farc.
Marw:	Ebrill 17 1872 Paignton Dyfnaint.
Teulu:	Profi ei ewyllys Meh 5 1872, yn gynt o Bedworth, Warwicks, ond wedyn o Belle View House, Paignton, Dyfnaint. Sgutoriaid: y Parch. Henry a'r Parch. Charles, ei feibion.
Meddygol:	Clwyfau yn ei goes a'i fraich. Gadael y gwasanaeth oherwydd clwyfau yn 1806.
Amrywiol:	Wedi gadael y llynges, ymuno â'r 15fed Hwsariaid. Priodi'n 20 oed, ond heb ganiatâd y fyddin, a gorfod ymddeol. Ei frawd yn y 15fed Hwsariaid ym mrwydr Waterloo. Matric Alumni Prifysgol Rhydychen Gorff 3 1816 yn 25 oed. Ei ordeinio yn yr Eglwys wedi 1811 – Caplan Anrhydeddus Cadeirlan Caerwrangon. Caplan i Iarll Stafford, ac Ustus Heddwch. Rheithor Bedworth, Warwicks. Claddu: Exhall, Warwicks, 81 oed.

Gwybodaeth ychwanegol:

'Bedworth Church and its Rectors' gan Alfred H Lawrence.

"Daeth (y Parchedig Bellairs) i wynebu sefyllfa yma a fyddai wedi torri calon y rhan fwyaf o bobl, ond gwnaeth ei waith gyda llwyddiant mawr. Pan ddaeth yma roedd y plwy yn ddigalon ac yn anhrefnus: tlodi, diweithdra a phechod yn rhemp, ei eglwys yn wag a'i ysgolion yn cael eu hesgeuluso. Roedd mynd mawr ar ymladd ceiliogod, poeni teirw, yfed, gamblo, a helyntion o bob math i'w cael. Byddai'r dynion yn ymladd yn rheolaidd, a hyd yn oed y gwragedd yn tynnu eu dillad yn y stryd i ymladd. Cafodd y dref yr enw Bed'orth Du oherwydd garwedd a dirywiad y lle.

Ond aeth y rheithor at ei waith gan brofi ei gymeriad. Dangosodd ei fod yn gryfach o ran corff na hyd yn oed ei blwyfolion gwaethaf trwy ymladd yn llwyddiannus ddwywaith – unwaith yn y fynwent ac unwaith yn y farchnad. Brwydrodd yn erbyn y tai tafarn trwy roi gwybodaeth amdanynt i'w gyd-ustusiaid heddwch. Enillodd barch iddo ei hun ymhlith y bobl fwyaf gwyllt trwy fynd i'r afael yn egnïol â'r helyntion o'i gwmpas. Gorfododd awdurdodau'r plwyf i wneud eu dyletswydd heb flino wrth iddo gyflawni ei ddyletswydd ei hun yn ddi-ffael. O dipyn i beth daeth gwelliant mawr i arferion a bywyd y lle, a chollodd y gair Du ei ystyr."

Gallwch ddarllen am forwyr a hwyliodd yn llynges Trafalgar trwy fynd i www.trafalgar-schools.org.uk. Cliciwch ar 'crew list' ac fe welwch gofnodion am y rhai oedd ar fwrdd y llongau. Mae'r enghraifft ar y chwith yn rhoi manylion am un o'r morwyr ieuengaf.

Tasg

- Darllenwch trwy'r cofnod ac ysgrifennwch adroddiad byr o fywyd Henry Bellairs'.
- Darllenwch restr y morwyr ar www.trafalgar-schools.org.uk a dewiswch forwr a oedd yn iau na 18 oed.
- Beth oedd eu gwaith ar fwrdd y llong, ee. bachgen y llong, midshipman, morwr cyffredin?
- Ysgrifennwch un diwrnod o ddyddiadur dychmygol am y person hwnnw, seiliedig ar y wybodaeth hon.

Nodiadau athrawon

Oedran

Blynyddoedd 7/8

Adnoddau pellach

Nodiadau athrawon
Rhestr llongwyr
Geirfa
www.trafalgar-schools.org.uk

Cysylltiadau cwricwlwm

Hanes, Mathemateg, TGC, Llythrennedd, Gwyddoniaeth



BYWYD AR FWRDD LLONG Y MORWYR

NODIADAU ATHRAWON

Yn y gweithgaredd hwn gall y disgyblion chwilio trwy'r gronfa ddata o'r 18,000 o forwyr a ymladdodd yn llynges Prydain ym Mrwydr Trafalgar.

Canlyniadau'r dysgu

- Chwilio am wybodaeth a'i chodi o gronfa ddata o wybodaeth hanesyddol
- Archwilio bywydau morwyr a fu ym Mrwydr Trafalgar
- Deall gwahanol rengoedd y llynges a'u gwaith a sut roeddent yn cyfrannu i redeg llong yn effeithiol

Amlinelliad o'r dasg

- Defnyddio'r darn a roddi'r o'r gronfa ddata i ysgrifennu hanes bywyd yr unigolyn
- Defnyddio'r darn o'r gronfa ddata i ddarganfod pobl ddiddorol eraill dan 18 oed a gwybodaeth atodol i helpu deall eu bywyd ar fwrdd y llong
- Ysgrifennu rhan ddychmygol o ddyddiadur un o'r bobl hyn

Gwahaniaethu

Disgyblion llai galluog

- Gallu dibynnu'n drymach ar yr eirfa

Gweithgareddau ymestynnol

- Defnyddio geiriaduron i ddarganfod ystyron rhai o'r termau eraill a ddefnyddir mewn disgrifiadau
- Defnyddio adnoddau eraill o fewn cronfa ddata'r morwyr a gwefan Coedydd Trafalgar i ganfod rhagor o wybodaeth am y bobl ar fwrdd y llongau

Adnoddau angenrheidiol

Taflen y disgyblion
Geirfa ar gyfer cofnod Henry Bellairs yn y gronfa ddata (y dudalen nesaf)
Cyfrifiadur
Cyswllt â'r Rhyngrwyd – gellir cyrraedd rhestr y Criw trwy www.trafalgar-schools.org.uk

Nodiadau

- Ceir cryn amrywiaeth yn y manylion sydd ar gael ar gyfer y morwyr dan 18 oed. Mae'r cofnodion canlynol yn arbennig o ddifyr a rhai ohonynt yn cynnwys disgrifiadau corfforol:

  BRADLEY, James, LONDON, 14 oed
  CHAPMAN, James, LONDON, 13 oed
  DUFF, Norwich, CAEREDIN, 14 oed
  FRENCH, Joseph, SHOREDITCH, 15 oed
  MURRAY, George, SIDENEWRY (Iwerddon), 16 oed
  OWEN, Henry, WIMBLETON (Wimbledon), 16 oed
  PALMER, Thomas, MILFFWRDD, (Sir Benfro), 17 oed
- Ceir defnyddio'r cofnodion hyn ar y wefan trwy ganiatâd caredig Derek a Pamela Ayshford. Ewch i www.treeforall.org.uk/trafalgar/crewlist ar gyfer rhagor o wybodaeth – mae CD ROM o'r holl gronfa ddata ar gael hefyd.
- Gweler y rhestr gyflawn o wefannau defnyddiol yn www.trafalgar-schools.org.uk ar gyfer ffynonellau o wybodaeth bellach.

Cysylltiadau â'r cwricwlwm

Mathemateg, TGCh, Llythrennedd, Hanes



www.treeforall.org.uk/trafalgar
Mae Coedydd Trafalgar yn rhan o ymgyrch Coeden i Bawb Coed Cadw
Nod masnach cofrestredig yw logo Coeden i Bawb. Elusen gofrestredig Rhif 294344

BYWYD AR FWRDD

LLONG

Y MORWYR

NODIADAU ATHRAWON

Geirfa ar gyfer cofnod Henry Bellairs

Termau cyffredinol

Profi ei ewyllys – cytuno ar yr ewyllys fel dogfen gyfreithiol dderbyniol – ar ôl profi'r ewyllys, câi pobl wedi'u henwi yn yr ewyllys gymryd meddiant o eiddo neu nwyddau oedd wedi'u gadael iddynt.

Sgutoriaid – y bobl gyfrifol am weithredu'r dymuniadau a nodir mewn ewyllys

15fed Hwsariaid – catrawd o wŷr meirch ysgafn

Matric Alumni Prifysgol Rhydychen – mae Alumni Rhydychen yn gofnod o gyn-fyfyrwyr Prifysgol Rhydychen. Ystyr 'matric' yw matriculation, y seremoni pryd mae myfyriwr yn cael mynediad ffurfiol i brifysgol i ddechrau astudio. Y dyddiad a roddir yw dyddiad seremoni'r matriculation.

Ordeinio – cael ei wneud yn offeiriad yn yr eglwys Gristnogol

Ustus Heddwch – Ynad nad yw'n cael ei dalu, yn cael ei benodi i gadw'r heddwch mewn tref neu sir ac i wrando mân achosion o ladrata, a.a.

Termau Llyngesol a Milwrol

Spartiate – llong 74 magnel â 641 o forwyr a gymerodd ran ym Mrwydr Trafalgar. Llong Ffrengig oedd hon a gipiwyd gan y Prydeinwyr mewn brwydr flaenorol.

Midshipman – swydd yn y llynges, cam pwysig i "fonheddwyr ifanc" o deuluoedd cyfoethog oedd am fynd yn is-gapteiniaid. Roedd ganddynt beth cyfrifoldeb, er enghraifft, gellid gofyn iddynt fod yn bennaeth ar un o gychod bach y llong.

Cronfa Wladgarol Lloyd's – mudiad elusennol a sefydlwyd gan Lloyd's o Lundain (cwmni o yswirwyr sy'n dal i fodoli heddiw) i roi arian i ddynion yn y lluoedd arfog a gafodd eu clwyfo neu'u lladd wrth amddiffyn eu gwlad.

Gwnaeth ei farc – byddai rhywun yn gwneud ei farc yn lle torri'i enw os na fedrai ysgrifennu (naill ai oherwydd nid oeddent wedi dysgu ysgrifennu neu am eu bod wedi'u clwyfo) pan aethant i gasglu eu harian. Mewn cofnodion eraill yn y gronfa ddata mae 'Gwnaeth ei farc' yn golygu bod pobl wedi sylwi ar ei weithredoedd (e.e. am ddewrder yn y frwydr).

Medal Gwasanaeth Cyffredinol y Llynges – medal a roddwyd i ddynion a ymladdodd ym Mrwydr Trafalgar a brwydrau eraill yr adeg honno. Ni roddwyd y medal i ddynion a fu yn Nhrafalgar tan 1848, felly dim ond 10% ohonynt a'i cafodd.

Nod masnach cofrestredig yw logo Coeden i Bawb. Elusen gofrestredig Rhif 294344

COEDYDD TRAFALGAR
COETIROEDD HEDDIW

Arolwg Coetir

Mae gan Coed Cadw, prif elusen cadwraeth coetiroedd Gwledydd Prydain, fwy na 1,000 o goedydd ar draws Gwledydd Prydain. Mae'r rhain yn cael eu rheoli'n ddeallus ar gyfer bywyd gwyllt a mwynhad pobl. Mae Coed Cadw yn creu coedydd newydd ar draws Gwledydd Prydain, un am bob llong a hwyliodd yn llynges Trafalgar. Helpwch yr elusen trwy ddysgu beth yn union yw coetir da.

Archwilio _____ **(enw'r coetir)**	
Pethau da	Pethau drwg

Nodwch chwe rheswm posib pam y gallai pobl ddefnyddio'r coetir hwn

Tasg

- Ewch i goetir lleol ac ysgrifennwch eich arsylwadau ar y daflen hon.
- Nodwch chwe rheswm posib pam y gallai pobl ddefnyddio'r coetir hwn.
- Gan ddefnyddio'r wybodaeth hon, awgrymwch sut y gellid gwella'r coetir ar gyfer gwahanol bobl.
- Maen nhw'n bygwth adeiladu yn y coetir. Dewiswch naill ai ffordd newydd yn mynd trwy'r canol neu godi canolfan hamdden yno. Ysgrifennwch erthygl i'ch papur lleol, gan roi gwahanol safbwyntiau o blaid ac yn erbyn y cynllun.

Nodiadau athrawon

Oedran

Blynyddoedd 7/9

Adnoddau pellach

Nodiadau athrawon
Rhestr llongwyr
www.trafalgar-schools.org.uk

Cysylltiadau cwricwlwm

Addysg Bersonol a Chymdeithasol, Daearyddiaeth, Cymraeg

Nod masnach cofrestredig yw logo Coeden i Bawb. Elusen gofrestredig Rhif 294344

BYWYD AR FWRDD LLONG

COETIROEDD HEDDIW

NODIADAU ATHRAWON

Canlyniadau'r dysgu

- Gwerthfawrogi agweddau cadarnhaol a negyddol coetir lleol
- Cydnabod bod gwahanol anghenion, blaenoriaethau a barn gan aelodau o'r gymuned leol
- Deall bod adnoddau'n gyfyngedig a bod y cyngor lleol yn penderfynu ar flaenoriaethau mewn ymgynghoriad ag aelodau o'r gymuned

Amlinelliad o'r dasg

- Defnyddio'r daflen waith i gofnodi arsylwadau mewn coetir lleol
- Ystyried y bobl a allai ddefnyddio'r coetir ac i ba ddiben
- Awgrymu gwelliannau i'r coetir ar gyfer y gwahanol ddefnyddwyr hyn
- Ystyried y cwestiynau llosg pe bai bygythiad i ddatblygu'r coetir, a chynhyrchu papur newydd yn dangos gwahanol safbwyntiau

Gwahaniaethu

Disgyblion llai galluog

- Rhoi ychydig o enghreifftiau fel man cychwyn ar gyfer pob ymarfer (gweler y nodiadau enghreifftiol ar y dudalen nesaf)
- Annog trafodaeth grŵp a chynnig syniadau am y cwestiynau llosg

Gweithgareddau ymestynnol

- Gofyn i'r disgyblion ystyried sut gallai'r dadleuon dros ac yn erbyn datblygu coetir newid pe bai'r datblygiad yn ysbyty, yn barc sglefrfyrddio neu'n archfarchnad
- Gofyn i'r disgyblion ystyried pam mae'n bwysig trafod y cynlluniau ar gyfer ailddatblygu mewn cyfarfod cyhoeddus ac nid yn y cyngor yn unig
- Cyfeirio'r disgyblion i wefan Woods under Threat (gweler y cyswllt ar y dudalen nesaf) i ymchwilio i rai enghreifftiau go iawn.

Yn y gweithgaredd hwn bydd y disgyblion yn dysgu am goetir lleol, ei nodweddion cadarnhaol a negyddol ac yn meddwl am anghenion a safbwyntiau'r gwahanol ddefnyddwyr. Bydd yr ymarfer 'coetir dan fygythiad' yn eu cynorthwyo i drafod y pwyntiau o blaid ac yn erbyn y newidiadau ac ystyried pwysigrwydd democratiaeth leol a rhan yr unigolyn ynddi.

Adnoddau angenrheidiol

Taflen y disgyblion
Cyfrifiadur (os yn gair-brosesu'r papur newydd)
Nodiadau enghreifftiol (y dudalen nesaf)

Nodiadau

Man cychwyn delfrydol ar gyfer y gweithgaredd hwn yw ymweliad â choetir lleol. I ddarganfod eich coetir Coed Cadw agosaf, ewch i www.woodland-trust.org.uk

Cysylltiadau â'r cwricwlwm

Dinasyddiaeth, Daearyddiaeth, Cymraeg, Gwyddoniaeth

Nod masnach cofrestredig yw logo Coeden i Bawb. Elusen gofrestredig Rhif 294344

COEDYDD TRAFALGAR

Y COETIR HEDDIW

NODIADAU ATHRAWON

Arolwg Coetir

Arsylwi ar _____ (enw'r coetir)	
Arsylwadau cadarnhaol	Arsylwadau negyddol
Cân adar/bywyd gwyllt	Sbwriel/baw cŵn
Tawel, llonydd	Ffordd hir i gyrraedd y coetir
Blodau lliwgar	Mwdlyd
Naws hamddenol	Tyfiant dros y llwybrau
Lleihau straen meddwl	Dim mynediad i bobl anabl
Claear a chysgodol	Gormod o ymwelwyr (os yn lle poblogaidd)

Pwy allai ddefnyddio'r coetir?

Oedolion, taid a nain, teuluoedd, plant. Bydd rhai o'r bobl hyn yn ymweld fel rhan o'u bywydau bob dydd, ond eraill sy'n byw yn bellach i ffwrdd yn gorfod gwneud taith benodol.

Grwpiau fel y Sgowtiaid, Geidiaid neu glybiau bywyd gwyllt. Grwpiau gwirfoddol fel y BTCV (Ymddiriedolaeth Brydeinig i Wirfoddolwyr Cadwraeth).

Perchennog y coetir (tirfeddiannwr preifat, Coed Cadw, ffermwr, cyngor lleol, a.a.). Pwy bynnag sy'n cadw a chynnal y coetir – clirio llwybrau neu dorri coed.

Ymarfer: cerdded, loncian, seiclo
Mynd â'r ci am dro
Chwarae
Marchogaeth
Gwylio adar neu fywyd gwyllt
Dysgu/defnyddio medrau awyr agored megis coedlannu

Rhesymau pam y gallai pobl ddefnyddio'r coetir hwn

Fel llwybr tarw
Ar gyfer picnic
I wneud gwaith gwirfoddol fel creu llwybrau troed
I wneud gwaith cyflog fel clirio llwybrau
Rhywle tawel, i gael 'llonydd gorffenedig'
Mwyara, cneua

Mae gwefan Woods under Threat Coed Cadw www.woodsunderthreat.org.uk yn caniatáu i'r disgyblion ddarganfod pa goedydd neu goed hynafol yn eu hardal nhw sy'n cael eu bygwth ar hyn o bryd gan ffyrdd, diwydiant, tai neu unrhyw ddatblygiad arall.

Rhai safbwyntiau y gallai defnyddwyr y coetir eu mynegi am ddatblygiad arfaethedig

- Rwy'n mynd â'r ci yno am dro bob bore. Mae'n lle bendigedig, a byddwn i'n gweld ei eisiau.
- Rwy'n hoffi cadw'n ffit, a bydda i'n loncian trwy'r coed bob dydd a thros y Sul. Rwy'n mwynhau'r awyr iach ac mae'n llawer mwy diogel rhedeg yn y coetir nag ar y ffyrdd.
- Mae'r plant yn ein hysgol ni wrth eu bodd yn cael gwersi yn y coed. Mae gynnon ni ddiddordeb yn y bywyd gwyllt yno ac rydan ni am ei gadw.
- Mae'r coetir yn denu llawer o ymwelwyr. Maen nhw'n gollwng sbwriel ac yn creu niwsans. Baswn i'n falch gweld y coetir yn cael ei symud.
- Mae llawer math o anifeiliaid prin yn y coed. Os byddwn ni'n tarfu arnyn nhw, o bosib ddôn nhw byth yn ôl.
- Bydd llanciau lleol yn fandaleiddio'r coed o dro i dro, felly dyw'r cyngor ddim yn meddwl bod pobol yn poeni am y lle.
- Mae'n rhaid i ni godi ymwybyddiaeth mwy o bobl am bwysigrwydd amddiffyn llefydd fel y coetir yma. Os collwn ni ormod o goed bydd yr amgylchedd yn diodde.
- Mae gwir angen y ffordd/ganolfan hamdden newydd ar bobl yr ardal, a bydd y datblygiad yn creu swyddi newydd yma.

Materion/themâu eraill y gellid eu trafod

Defnydd o'r coetir er mwyn hamdden a mwynhad

Sbwriel a fandaliaeth

Cadwraeth bywyd gwyllt

Hawliau mynediad y cyhoedd

Pwysigrwydd ymarfer corff

Gweithredoedd rhai unigolion yn effeithio ar weddill y gymdeithas

Y cyswllt rhwng materion lleol a rhai bydeang

Cadw at reolau a rheoliadau

Nod masnach cofrestredig yw logo Coeden i Bawb. Elusen gofrestredig Rhif 294344